# Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

## Crynodeb Gweithredol

1. Mae Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n sbardun eithriadol bwysig ar gyfer economi Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'n rhanbarth gyda chanolfannau trefol cryf gyda thirlun gwledig ehangach yn gefndir i'r cwbl ynghyd ag ôl-troed arfordirol sylweddol sydd wedi creu proffil economaidd amrywiol gyda nifer o wahanol gyfleoedd a sialensiau.

2. Bydd y Fargen Ddinesig hon yn cynnig ffyrdd newydd o weithio i'r rhanbarth a'i bartneriaid ynghyd ag adnoddau i ddatgloi twf economaidd helaeth ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Mae'n Fargen lle mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyd-fuddsoddi ynddi, yn amodol ar gyflwyno a chymeradwyo achosion busnes llawn ar gyfer yr 11 prosiect sydd mewn golwg a bod trefniadau llywodraethu'n cael eu cytuno ar gyfer y fargen, hyd at £241 miliwn ar ymyriadau penodol i geisio cefnogi ac adeiladu ymhellach ar gryfderau'r rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys y sectorau iechyd, ynni a gweithgynhyrchu sydd wedi eu hategu gan seilwaith digidol gyda'r gorau yn y byd, prifysgolion llwyddiannus a byrddau iechyd arloesol.

3. Mae'r Fargen yn rhoi cyfle i barhau i fynd i'r afael â rhwystrau'r ardal i dwf economaidd drwy: ddatblygu sectorau gwerth uwch a chyfleoedd gwaith gwerth uwch i gyd-fynd â hynny; cynyddu nifer y busnesau yn y sectorau hyn i ehangu'r sylfaen economaidd; a gwella lefel GVA y rhanbarth o'i chymharu â'r cyfartalog ar draws y DU.

4. Yn ogystal â chyflwyno rhaglenni i yrru twf economaidd, mae'r Fargen Ddinesig yn ymrwymo arweinwyr a phartneriaid lleol i roi arweinyddiaeth effeithiol ar draws y Ddinas-Ranbarth. Wrth gytuno i'r fargen hon, mae'r pedwar Arweinydd awdurdod lleol ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe wedi cytuno i greu Bwrdd Strategaeth Economaidd a Chydbwyllgor i wneud penderfyniadau ar y cyd ac i oruchwylio'r gwaith o ddarparu'r Fargen Ddinesig hon.

5. Mae'r trefniadau llywodraethu newydd hyn yn dangos manteision dull cydweithredol gan hefyd olygu y bydd awdurdodau lleol yn gallu cynllunio a darparu gwasanaethau ar raddfa briodol ac yn fwy effeithiol, gan gynnwys cynllunio defnydd tir strategol, trafnidiaeth strategol a datblygu economaidd.

6. Mae partneriaid lleol Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n amcangyfrif y bydd y Fargen Ddinesig hon yn arwain at:

   - Gyllid o bron i £1.3 biliwn ar gyfer ymyriadau i gefnogi twf economaidd
   - Dros £600 miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat tuag at ddarparu'r ymyriadau
   - Buddsoddiad wedi'i wasgaru ar draws y rhanbarth cyfan i sicrhau bod pob ardal a phob dinesydd yn elwa
   - Cynnydd crynswth i'r economi o dros 9,000 o swyddi uniongyrchol
   - Cyfraniad o £1.8 biliwn i'r GVA rhanbarthol.

**Wrth lofnodi'r ddogfen hon rydyn ni'n cadarnhau ein cyd-ymrwymiad i sicrhau gweithrediad llawn Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a gynigir gan: Gyngor Sir Benfro, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot a Chyngor Sir Gâr.**

The Rt Hon Theresa May
Prime Minister

Y Gwir Anrhydeddus Theresa May
Prif Weinidog

The Rt Hon Carwyn Jones
First Minister of Wales

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones
Prif Weinidog Cymru

The Rt Hon Alun Cairns
Secretary of State for Wales

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Mark Drakeford AM
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Cllr. Rob Stewart
Leader, City and County of Swansea

Y Cynghorydd Rob Stewart
Arweinydd Dinas a Sir Abertawe

Cllr. Ali Thomas
Leader, Neath Port Talbot Council

Y Cynghorydd Ali Thomas
Arweinydd Cyngor Castedd-nedd Port Talbot

Cllr. Emlyn Dole
Leader, Carmarthenshire County Council

Y Cynghorydd Emlyn Dole
Arweinydd Cyngor Sir Gâr

Cllr. Jamie Adams
Leader, Pembrokeshire County Council

Y Cynghorydd Jamie Adams
Arweinydd Cyngor Sir Penfro

## Rhagarweiniad

7. Mae Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n cynnwys pedwar awdurdod lleol: Cyngor Sir Benfro, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot a Chyngor Sir Gâr. Mae'n sbardun enfawr ar gyfer economi Cymru gyda phoblogaeth breswyl o 688,000 yn cefnogi tua 302,000 o swyddi ac yn cynnwys tua 22,000 o fusnesau.

8. Mae'r rhanbarth yn fawr ac amrywiol ac yn cynnwys canolfannau trefol ac ystod eang o leoliadau gwledig gydag economïau a chymunedau nodedig ond sydd eto'n rhyng-gysylltiedig. Mae'r amrywiaeth yma'n helpu i leoli'r rhanbarth fel lleoliad dymunol i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo.

9. Er ei fod yn gartref i ystod o gyflogwyr mawr mewn sectorau strategol allweddol, gan gynnwys gweithgynhyrchu, gofal iechyd a'r sector cyhoeddus, mae hefyd yn cynnwys nifer o adnoddau naturiol amhrisiadwy a seilwaith. Er enghraifft mae Aberdaugleddau'n harbwr naturiol ac yn un o'r mwyaf yn y byd lle mae 28% o'r mewnforion nwy naturiol i'r DU yn pasio trwyddo.

10. Mae'r cryfderau a'r asedau hyn wedi eu hategu gan rwydwaith cefnogol, gan gynnwys sefydliadau addysg bellach y rhanbarth. Coleg Ceredigion, Coleg Sir Benfro, Coleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr Abertawe a Grŵp y NPTC. Cefnogir hyn hefyd gan Brifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant sydd ill dwy'n darparu ymchwil gyda'r mwyaf blaenllaw yn y byd ynghyd â'r sgiliau a'r dalent i yrru twf.

11. Fodd bynnag, er y cryfderau hyn mae'r rhanbarth yn tanberfformio'n economaidd. Ar y cyfan mae twf cynhyrchedd yr ardal (GVA) wedi bod yn gyson is nag ar draws Cymru a gweddill y DU dros y ddau ddegawd diwethaf, gyda GVA fesul gweithiwr yn y rhanbarth yn £34,300 yn 2015 (prisiau 2011), 74% o'r cyfartalog ar draws y DU. Atgyfnerthir yr ystadegau hyn drwy gymysgedd sectorau'r economi sydd, ar y cyfan, wedi'i gerio tuag at sectorau gwerth is o'i gymharu â gweddill y DU ac felly mae natur y swyddi yn y sectorau hyn yn werth llai at ei gilydd.

12. Mae partneriaid rhanbarthol yn deall y cyfleoedd y gallai cryfderau'r rhanbarth eu hecsbloetio a hefyd y gwendidau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt i sicrhau twf, gan gydweithredu'n helaeth i gynnig Bargen Ddinesig gyda ffocws llwyr ar weithredu ar y cyd dros y ddau ddegawd nesaf.

# Elfennau Allweddol y Fargen

13. Mae partneriaeth Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, drwy gyhoeddiad yr 'Arfordir Rhyngrwyd' a thrafodaethau ers hynny gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, wedi datblygu strategaeth glir sydd wedi'i hategu gan ymyriadau penodol i ddarparu twf economaidd eang a chynaliadwy ar draws y rhanbarth. Yr ymyriadau hyn, yn amodol ar gyflwyno a chymeradwyo achosion busnes manwl ar gyfer yr un ar ddeg prosiect sydd wedi eu nodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac ar ddod i gytundeb ynghylch y cytundebau llywodraethu angenrheidiol ynghyd â model darparu, sy'n llunio'r Fargen Ddinesig hon a bydd yn golygu ymrwymiad o £1.3 biliwn dros 15 mlynedd ar gyfer y rhanbarth.

14. Bydd Llywodraethau Cymru a'r DU yn cyfrannu hyd at £241 miliwn i'r Fargen. Bydd y pedwar awdurdod lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill yn y rhanbarth yn cyfrannu £396 miliwn dros gyfnod y Fargen hon.

15. Disgwylir y bydd hyd at £637 miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat yn cael ei sicrhau ar gyfer y Fargen ar draws pob un o'r ymyriadau.

16. Mae Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n credu y bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi creu dros 9,000 o swyddi ychwanegol ac yn cyfrannu at gynyddu'r GVA o £1.8 biliwn.

## Themâu Buddsoddi

17. Bydd seilwaith digidol wedi'i brawfesur ar gyfer y dyfodol yn darparu'r sylfeini trawsnewidiol ar gyfer ymyriadau'r Fargen ac, o'u cyfuno, yn creu newid sylfaenol yn nyluniad, datblygiad a chymhwysiad technoleg mewn sectorau allweddol ar draws y rhanbarth. Bydd yr ymyriadau hyn yn canolbwyntio ar:

    - **Rhyngrwyd Cyflymu'r Economi** Darparu strategaeth datblygu economaidd gydlynol ac integredig ar gyfer y rhanbarth sy'n ymgorffori'r galw am, a'r posibilrwydd o ddarparu'r genhedlaeth nesaf o seilwaith digidol ynghyd â chreu bro ddigidol yn Abertawe a'r cyffiniau. Yn ogystal, cefnogi twf y diwydiannau creadigol yn y rhanbarth drwy achub ar holl fanteision adleoli S4C gan ddarparu amgylchedd cefnogi cydnabyddedig gyda'r gorau yn y byd ar gyfer busnesau technoleg a busnesau newydd ynghyd â datblygu'r sgiliau fydd eu hangen i gefnogi'r twf.

    - **Rhyngrwyd Gwyddorau Bywyd a Lles.** Adeiladu ar yr asedau presennol yn y rhanbarth drwy ehangu'r seilwaith ymchwil ac arloesi a threialu amgylchedd gofal iechyd sy'n ddigidol-integredig.

    - **Rhyngrwyd Ynni.** Gosod y rhanbarth ar flaen yr arloesi gydag ynni ym maes codi tai cynaliadwy er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd a thrwy greu canolfan ragoriaeth i ddatblygu ac ecsbloetio agweddau ar ynni morol ac ynni arall.

- **Gweithgynhyrchu Clyfar.** Cefnogi'r economi weithgynhyrchu hanfodol bwysig yn y rhanbarth drwy gyfuno asedau digidol ag ymchwil a datblygu o dan egwyddorion Diwydiant 4.0 er mwyn gwella cynhyrchion, gwasanaethau a phrosesau. Yn ogystal, meithrin gallu blaenllaw i arloesi er mwyn cefnogi Ymchwil a Datblygu yn y diwydiant dur yng Nghymru ac ar draws gweddill y DU.

## Cyllid Llywodraeth

18. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi ymrwymo i gyfrannu £241m o'r cyllid cyfalaf ar gyfer y Fargen Ddinesig hon, gyda £115.6m yn dod gan Lywodraeth y DU a £125.4m gan Lywodraeth Cymru, sy'n adlewyrchu'r cydbwysedd o feysydd gwario datganoledig ac a gadwyd yn ôl yn y prosiectau arfaethedig.

19. Bydd y ddwy Lywodraeth yn darparu'r cyllid dros gyfnod o 15 mlynedd. Bydd cyllid yn cael ei ryddhau'n dilyn cytuno ar achosion busnes llawn ar gyfer y prosiectau, gan y ddwy Lywodraeth.

## Benthyca Awdurdod Lleol

20. Drwy gydol rhaglen y Fargen Ddinesig, bydd y pedwar awdurdod lleol yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe'n gyfrifol am ariannu'r rhaglen buddsoddiad cyfalaf. Cyfrifoldeb yr awdurdod neu awdurdodau lleol perthnasol fydd cost unrhyw fenthyca allanol a bydd yn cael ei reoli'n unol ag egwyddorion darbodus – rhaid iddo fod yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

21. Mewn senario lle nad yw darparu'r Fargen Ddinesig o fewn terfynau cytunedig, gan arwain at lai neu ddiwedd y grant i'r Fargen Ddinesig, yr awdurdodau lleol unigol yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe fydd yna'n gyfrifol am reoli effaith ariannol hyn o fewn cyllideb eu hawdurdod lleol, drwy ddefnyddio eu harian dros ben neu arian gweddill fel bo angen.

## Hyblygrwydd Cyllid Ychwanegol

22. I gefnogi ymrwymiadau Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a chryfhau ymhellach yr adnoddau i ariannu'r ymyriadau er mwyn sicrhau twf economaidd, byddai'r pedwar awdurdod lleol yn croesawu mwy o ymreolaeth ariannol a hyblygrwydd.

23. Fel rhan o'r Fargen Ddinesig hon bydd Llywodraeth Cymru'n trafod y canlynol gyda Dinas-Ranbarth Bae Abertawe:
    - datganoli incwm o ardrethi busnes sydd dros ffigwr twf cytunedig i ddarparu cyllid ar gyfer rhaglen y Fargen Ddinesig;
    - hawl i godi tâl seilwaith atodol;
    - creu opsiwn i'r awdurdodau lleol ddefnyddio ffynonellau ariannu eraill; a

- dileu amodau'n ymwneud â rhai grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu cyfuno cyllid ar lefel ranbarthol mewn meysydd fel cymorth i ysgolion ac ymyriadau sy'n mynd i'r afael â thlodi.

## Darparu Swyddogaethau Rhanbarthol Strategol

24. Bydd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn ymrwymo i ddarparu nifer o swyddogaethau strategol allweddol ar lefel ranbarthol i gefnogi gweithrediad y Fargen hon a gwaith datblygu ehangach.

25. Bydd y swyddogaethau hyn yn cynnwys cynllunio defnydd tir strategol a datblygu economaidd, fodd bynnag mae'r pedwar awdurdod lleol yn rhydd i gytuno i rai eraill, lle dangosir digon o fanteision i'r rhanbarth.

26. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, bydd awdurdodau lleol yn datblygu amserlen ar gyfer gweithredu.

## Rhyngrwyd Cyflymu’r Economi

27. Mae’r thema Rhyngrwyd Cyflymu’r Economi yn ceisio lleoli’r rhanbarth fel un a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol fel rhanbarth sy’n ecsbloetio’r genhedlaeth nesaf o rwydweithiau digidol a systemau arloesi, wedi’i arwain gan y diwydiant.

28. Ei nod yw adeiladu ar yr asedau sydd yn y rhanbarth yn barod gydag ymyriadau sy’n seiliedig ar yr angen am, a’r posibilrwydd o ddarparu seilwaith digidol ynghyd â’r gofod ffisegol, y rhwydweithiau cymorth a’r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu busnesau technoleg ar draws y sectorau gwybodaeth.

29. Bydd yr ymyriadau sydd mewn golwg yn cyd-fynd ag unrhyw ddarpariaeth bresennol yn y rhanbarth ac yn amodol ar gyflwyno achosion busnes a chynlluniau gweithredu manwl y bydd angen eu cymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae’r ymyriadau o dan y thema hon yn cynnwys:

- **Seilwaith Digidol.** Bydd y bartneriaeth leol yn trafod y galw am, a’r achos dros fuddsoddi mewn darparu’r seilwaith digidol diweddaraf ar gyfer y rhanbarth, i ategu holl ymyriadau’r Fargen hon. Gallai’r seilwaith hwn greu rhwydwaith ffeibr-llawn gyda chyflymderau gigabit gan hefyd ehangu’r galluoedd 4G a WiFi presennol. Mae Strategaeth 5G Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2017 yn gosod allan y camau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i gyflawni ei huchelgais o fod yn arweinydd byd-eang mewn 5G, gan gynnwys creu Rhwydwaith Arloesi 5G cenedlaethol newydd. Bydd y bartneriaeth leol yn ystyried sut y gallai buddsoddi mewn technoleg a chymwysiadau 5G drwy’r Fargen Ddinesig gefnogi prosiectau yn yr ardal. Byddai Llywodraeth y DU yn annog ymgysylltiad y bartneriaeth leol i adnabod sut y gallai Dinas-Ranbarth Bae Abertawe gysylltu â’r rhaglen Rhwydwaith Arloesi 5G ehangach.

- **Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a’r Glannau.** Nod menter yr Ardal Ddigidol yw creu canolfan ddinesig fywiog a chynaliadwy sy’n hwyluso twf gweithgareddau gwerth uwch (yn enwedig busnesau technoleg) a gweithredu fel sbardun pwysig i economi'r rhanbarth. Bydd yn creu gofod deori ac ardaloedd i fusnesau bach a newydd gael cydweithio fel rhan o ddatblygiad y Glannau; yn creu Ardal Fusnes Canol Dinas newydd i gefnogi twf busnesau technoleg a gweithgareddau gwerth ychwanegol uwch (HVA) eraill; ac yn datblygu asedau ffisegol digidol eu naws i helpu i adfywio Canol y Ddinas.

- **Canolfan Ragoriaeth i’r Genhedlaeth Nesaf o Wasanaethau Digidol.** Nod y Ganolfan fydd gweithredu fel canolbwynt systemau ac atebion i’r arfordir rhyngrwyd. Drwy weithredu allan o gyfleusterau wedi eu creu’n bwrpasol gan gynnig gofod deori, labordy ac ail gyfnod, bydd y Ganolfan yn pontio’r bwlch rhwng ymchwil ac arloesi ac yn gallu lansio, datblygu a thyfu cyfleoedd masnachol.

- **Yr Egin – Clwstwr Creadigol Digidol.** Drwy adeiladu ar benderfyniad S4C, y darlledwr Iaith Gymraeg, i sefydlu ei bencadlys yn nhref Caerfyrddin, nod Yr Egin fydd datblygu clwstwr creadigol digidol newydd. Y nod fydd ceisio denu busnesau bach a chanolig creadigol i gychwyn neu ehangu drwy ddarparu'r genhedlaeth nesaf o seilwaith digidol, cyfleusterau cyflymu busnes, gofod deori a chyfleoedd rhwydweithio.

- **Rhaglen Sgiliau a Thalent.** Wedi'i darparu drwy'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol sy'n cynnwys aelodau o'r sectorau preifat a chyhoeddus, nod y rhaglen hon fydd sicrhau bod gweithlu addas yn cael ei greu, ei ddenu a'i gadw i ddarparu pob un o ymyriadau'r Fargen Ddinesig. Bydd yn canolbwyntio ar nifer o feysydd gan gynnwys uwch-sgilio, darpariaeth Addysg Uwch / Bellach, Datblygiad Proffesiynol Parhaus, prentisiaethau ac ymgysylltu ag ysgolion, ymhlith pethau eraill, i gyfrannu at roi hwb sylweddol i gynhyrchedd ar draws yr economi'n gyffredinol.

## Rhyngrwyd Gwyddorau Bywyd a Lles

30. Mae'r thema Rhyngrwyd Gwyddorau Bywyd a Lles yn ceisio gweithredu fel catalydd ar gyfer uchelgeisiau datblygu economaidd penodol y bartneriaeth ARCH (Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd).

31. Mae'r bartneriaeth hon yn unigryw drwy ddod â'r Byrddau Iechyd rhanbarthol ac arbenigedd y gwyddorau iechyd ym Mhrifysgol Abertawe at ei gilydd, gyda ffocws ar arloesi agored gan harneisio galluoedd ymchwil, cysylltedd digidol, arbenigedd clinigol a mynediad i ddinasyddion fel bod y sectorau gwyddorau bywyd a gofal iechyd yn cael mwy o effaith ar dwf yr economi.

32. Bydd yr ymyriadau sydd mewn golwg yn cyd-fynd ag unrhyw ddarpariaeth bresennol yn y rhanbarth ac yn amodol ar gyflwyno achosion busnes a chynlluniau gweithredu manwl y bydd angen eu cymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r ymyriadau o dan y thema hon yn cynnwys:

    - **Campysau Gwyddorau Bywyd a Lles.** Wedi'i adeiladu ar athroniaeth o 'fynediad agored-arloesi agored', bydd y prosiect Campws yn ehangu'r seilwaith ymchwil ac arloesi yng nghampws Treforys ochr yn ochr â gwasanaethau clinigol gyda'r gorau yn y byd. Bydd hyn yn hwyluso lefel sylweddol fwy o arloesi technolegol a chlinigol i gryfhau capasiti'r rhanbarth i fasnacholi ymchwil mewn partneriaeth â busnesau rhyngwladol, cwmnïau bach a chanolig brodorol a chwmnïau sy'n deillio o brifysgolion. Yn ogystal bydd ailwampio eiddo tir yn gweld Campws Singleton yn ehangu, lle mae clwstwr cynyddol o fusnesau technoleg meddygol ac iechyd yn gweithredu a chydweithredu ar hyn o bryd.

    - **Pentref Gwyddorau Bywyd a Lles.** Bydd datblygu Pentref Iechyd a Lles yn fenter wirioneddol unigryw yn y DU ac wrth ei galon bydd y nod o integreiddio datblygiadau busnes, addysg, rhaglenni lles, ymchwil a datblygu a gofal iechyd, i gyd mewn un lle. Bydd y Pentref yn cynnwys canolfan gofal sylfaenol / cymunedol, canolfan Sefydliad Gwyddorau Bywyd i gefnogi ymchwil a chynnig gofod deori, modd i ddatblygu addysg a sgiliau ynghyd â chyfleusterau hamdden a thwristiaeth, a phob elfen yn integreiddio i greu amgylchedd 'Labordy Byw'. Bydd y Pentref wedi'i gysylltu'n ddigidol i'r campysau drwy ddefnyddio'r seilwaith digidol trawsnewidiol, wedi'i gefnogi gan y Rhyngrwyd Cyflymu'r Economi i hwyluso rhyng-gysylltu ar draws y rhanbarth a chan greu cyfleoedd gwaith a buddsoddi mewn gwyddorau bywyd ac iechyd.

## Rhyngrwyd Ynni

33. Mae'r thema Rhyngrwyd Ynni'n ceisio adeiladu ar y sylfaen o asedau ynni sylweddol ac amrywiol sydd yn y rhanbarth. Bydd yn dod â'r gallu i gynhyrchu a storio ynni confensiynol ac adnewyddadwy at ei gilydd ynghyd ag ymchwil sy'n arwain y byd mewn meysydd fel ynni llanw, deunyddiau a systemau ynni gyda'r ganolfan ynni strategol yn Aberdaugleddau a rhaglenni trawsnewid fel SPECIFIC.

34. Bydd y cyfuno hwn yn cynnig manteision economaidd sylweddol gan leoli'r rhanbarth fel canolbwynt i arloesi mewn ynni yn ogystal ag ymateb i faterion hollbwysig yn y rhanbarth fel prinder cartrefi fforddiadwy a thlodi tanwydd.

35. Bydd yr ymyriadau sydd mewn golwg yn cyd-fynd ag unrhyw ddarpariaeth bresennol yn y rhanbarth ac yn amodol ar gyflwyno achosion busnes a chynlluniau gweithredu manwl y bydd angen eu cymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

Mae'r ymyriadau o dan y thema hon yn cynnwys:

- **Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.** Drwy adeiladu ar alluoedd y sefydliadau a'r cyfleusterau ymchwil sydd eisoes yn y rhanbarth ac yn datblygu technolegau newydd fel bod adeiladau'n gallu cynhyrchu, storio a rhyddhau ynni, nod y fenter hon fydd cyflawni rhaglen sylweddol o adeiladu tai newydd ac ôl-osod sy'n integreiddio'r technolegau hyn. Er y bydd y rhaglen hon yn helpu i ddarparu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a chynnig atebion i dlodi tanwydd, bydd hefyd yn datblygu a cheisio denu cadwyni cyflenwi newydd gan ymgorffori gwaith ymchwil blaenllaw a gwaith adeiladu a gweithgynhyrchu o werth uchel. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU yn disgwyl i gynigion Dinas-Ranbarth Bae Abertawe fod yn uchelgeisiol a hefyd yn ychwanegol i'r hyn a ddarperir gan y tirlun arloesi presennol.

- **Ardal Forol Doc Penfro.** Bydd y prosiect hwn yn datgloi cyfleoedd twf ac adfywio lleol yn yr ardal, yng nghyswllt y sector morol a sectorau ynni eraill. Yr uchelgais ar gyfer y prosiect hwn fydd creu clwstwr o adnoddau, gwybodaeth a galluoedd mewn ynni morol a sectorau ynni eraill i gyflymu datblygiadau technolegol ac arwain at dwf busnesau brodorol, busnesau newydd gychwyn gan hefyd ddenu busnes rhyngwladol yn y maes hwn.

## Gweithgynhyrchu Clyfar

36. Mae'r thema Gweithgynhyrchu Clyfar yn ceisio cyflwyno cydweithio clir rhwng sector gweithgynhyrchu eithriadol bwysig y rhanbarth, gan gynnwys cwmnïau rhyngwladol a busnesau bach a chanolig sy'n cyflawni gwaith ymchwil a datblygu eisoes a newydd, i gyflymu'r broses o wella cynhyrchion a gwasanaethau a phrosesau diwydiannol newydd.

37. Nod y dull newydd hwn fydd sicrhau y bydd pob busnes ar draws y rhanbarth yn gallu elwa o'r briodas gynyddol rhwng gwybodaeth, data, technoleg a'r broses weithgynhyrchu i ecsbloetio marchnadoedd newydd a gwneud busnesau'n fwy cystadleuol, cynyddu eu capasiti i allforio ac i fanteisio ar gyfleoedd cadwyn gyflenwi newydd a gwneud y rhanbarth yn haws ei farchnata fel lleoliad cryf yn Ewrop ar gyfer y sector.

38. Bydd yr ymyriadau sydd mewn golwg yn cyd-fynd ag unrhyw ddarpariaeth bresennol yn y rhanbarth ac yn amodol ar gyflwyno achosion busnes a chynlluniau gweithredu manwl y bydd angen eu cymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r ymyriadau o dan y thema hon yn cynnwys:

- **Ffatri'r Dyfodol.** Er mwyn cefnogi a pharhau i adeiladu ar sylfaen weithgynhyrchu gryf y rhanbarth, bydd y fenter hon yn creu rhwydwaith o ganolfannau arloesi gweithgynhyrchu clyfar gan roi cyfle i fusnesau bach a chanolig fuddsoddi yn y technolegau diweddaraf a chyfleoedd yn gysylltiedig â chwyldro mewn gweithgynhyrchu digidol. Wedi'i goleuo gan egwyddorion diwydiant 4.0, a'i chefnogi gan arloeswyr diwydiannol o safon fyd-eang, bydd y fenter hon yn rhoi'r rhanbarth a'i fusnesau ar y blaen yn y chwyldro gweithgynhyrchu data a digidol hwn gan greu ecosystem o weithgynhyrchu integredig rhanbarthol.

- **Canolfan Gwyddorau Dur.** Bydd y Ganolfan hon yn canolbwyntio ar ddarparu Ymchwil a Datblygu masnachol i ateb y sialensiau presennol, ac i ddod, o gynnal capasiti'r rhanbarth a'r DU i wneud dur. Drwy wneud hyn bydd yn gweithio gyda'r diwydiant i leihau ei effaith carbon gan roi'r rhanbarth ar flaen y gad gyda chynhyrchu carbon isel. Bydd hefyd yn rhoi cymorth i'r datblygiadau yn y gadwyn gyflenwi dur a gweithgareddau is i lawr y gadwyn. Mae partneriaid lleol yn ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid eraill ar draws tirlun arloesi diwydiannol y DU i sicrhau bod y ganolfan hon yn gyson â, ac yn cryfhau, cynigion a wneir yn y dyfodol fel rhan o fargen bosib i'r diwydiant dur yn y DU.

## Llywodraethu Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

39. Bydd y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe’n cael eu cryfhau drwy ddatblygu strwythur arweinyddiaeth agored, sefydlog ac amlwg atebol fydd yn bennaf gyfrifol i’r etholwyr yn y pedwar awdurdod lleol.

40. Wrth galon y trefniadau hyn mae cytundeb y bydd y partneriaid lleol yn creu dau gorff newydd i oruchwylio gweithrediad y fargen hon: Bwrdd Strategaeth Economaidd, wedi’i gadeirio gan berson busnes o’r sector preifat ynghyd ag aelodaeth o blith rhai ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, a Chydbwyllgor o’r awdurdodau lleol wedi'i gadeirio gan arweinydd awdurdod lleol.

41. Bydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd yn gosod y cyfeiriad strategol i’r Fargen Ddinesig ac yn rhoi cyngor strategol i’r Cydbwyllgor ar faterion yn ymwneud â’r Fargen Ddinesig. Bydd y Bwrdd yn goruchwylio’r gwaith o gynhyrchu’r achosion busnes terfynol ar gyfer prosiectau’r Fargen Ddinesig cyn eu cyfeirio ymlaen at y Cydbwyllgor, ac yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd i sicrhau ei darparu a, lle bo angen, i herio sut y caiff y fargen ei darparu.

42. Bydd cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd yn cael ei benodi, yn dilyn enwebiadau, drwy gytundeb unfrydol gan: Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r partneriaid lleol (drwy bleidlais yn y Cydbwyllgor). Penodir aelodau eraill y Bwrdd drwy broses recriwtio ac enwebu agored. Bydd partneriaid Bae Abertawe’n cyflwyno cynigion ar gyfer y broses recriwtio ac enwebu. Bydd angen i bartneriaid lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gytuno'n unfrydol ar hyn.

43. Y Cydbwyllgor fydd yn gyfrifol ac atebol am yr holl benderfyniadau ariannol, staffio a chyfreithiol yng nghyswllt darparu'r fargen hon. Bydd angen i’r Cydbwyllgor gytuno i wneud penderfyniadau ar gyllid i’r Fargen Ddinesig ar sail dim ond achosion busnes yr ymyriadau a gytunwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

44. Bydd y Cydbwyllgor hefyd yn cofleidio’r cyfleoedd ehangach a gyflwynir drwy ddull rhanbarthol o gyflawni swyddogaethau strategol fel cynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd.

45. Bydd yr ymyriadau a ddisgrifir ym mharagraffau 29, 32, 35 a 38 yn amodol ar gyflwyno achosion busnes manwl fydd angen eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

46. Bydd gan Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru hefyd rôl ganolog i’w chwarae mewn arwain y dull strategol o ddarparu cyflogaeth a sgiliau yn y rhanbarth.

47. Bydd angen cytuno ar drefniadau llywodraethu ffurfiol a model darparu fel rhan o Drefniant Gweithio Ar y Cyd gan y pedwar awdurdod lleol a bydd angen i Lywodraethau Cymru a'r DU eu cymeradwyo.

**Tîm Darparu'r Fargen Ddinesig**

48. Er mwyn rheoli gweithrediad y Fargen Ddinesig, bydd partneriaid yn creu Uned Darparu Gweithredol bwrpasol. Penodir adnoddau i'r Uned hon drwy broses recriwtio briodol. Bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cydbwyllgor a bydd ganddi gyfrifoldeb o ddydd i ddydd am reoli'r prosesau o adnabod, asesu, cymeradwyo, monitro a gwerthuso'r ymyriadau a'r prosiectau.

49. Bydd hefyd yn cyflawni'r holl swyddogaethau gweinyddol angenrheidiol i weithredu'r Fargen, gan gynnwys dyletswyddau penodol i wasanaethu'r gwahanol Bwyllgorau.

50. Bydd Tîm Darparu'r Fargen Ddinesig yn cael ei benodi gan, ac yn adrodd i'r Cybwyllgor, gan ddarparu adroddiadau monitro i'r Cydbwyllgor ac i'r Bwrdd Strategaeth Economaidd.

**Diwygio Gwasanaethau Llywodraeth Leol**

51. Bydd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, drwy'r Cydbwyllgor ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn ymrwymo i ddiwygio gwasanaethau fel bod nifer o swyddogaethau strategol yn cael eu darparu ar lefel Ranbarthol. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio defnydd tir, cynllunio trafnidiaeth a datblygu economaidd gan ddarparu'r glasbrint sylfaenol a'r gyfundrefn ddarparu ar gyfer datblygu ar draws y rhanbarth.

52. Mae'r cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn cynnwys datblygu cydbwyllgorau llywodraethu dros dri rhanbarth. Bydd angen y tri chydbwyllgor llywodraethu hyn i benderfynu a pharhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau awdurdod lleol hynny y bydd efallai'n rhaid eu hymarfer yn rhanbarthol. Gallai fod ystod o swyddogaethau a fyddai'n dod o dan yr orfodaeth hon gan gynnwys datblygu economaidd, trafnidiaeth, cynllunio defnyddio tir, gwelliannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

53. Byddai'r rhanbarth perthnasol ar gyfer Bargen Ddinesig Rhanbarth Bae Abertawe'n cynnwys y pedwar awdurdod lleol sy'n rhan o'r fargen ynghyd â Phowys a Cheredigion. Mae'r ddau awdurdod uchod yn datblygu 'Tyfu Canolbarth Cymru' a byddem yn disgwyl i'r ddwy set yma o drefniadau gwahanol barhau o dan ymbarél ardal cydbwyllgor llywodraethu Canol a De-Orllewin Cymru. Byddai gan y Pwyllgor hwn wedyn rôl o sicrhau bod y trefniadau hyn yn gydlynol â'r trefniadau ar gyfer swyddogaethau datblygu economaidd a swyddogaethau perthnasol eraill yn ei ardal.

## Darparu, Monitro a Gwerthuso

54. Bydd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatblygu cynllun darparu, monitro a gwerthuso wedi'i gytuno, cyn gweithredu'r Fargen, yn disgrifio'r dull sydd mewn golwg o werthuso effaith ei darparu.

55. Os na chaiff y Fargen Ddinesig ei darparu'n unol â'r cynllun gweithredu fydd wedi'i gytuno gan Gydbwyllgor Bae Abertawe, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, neu os na chyflawnir unrhyw un o'r ymrwymiadau yn y ddogfen fargen hon, bydd y ddwy Lywodraeth yn adolygu ac efallai'n gwrthod talu unrhyw gyllid sydd heb eto ei dalu ar gyfer y Fargen.

56. Bydd Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n cael ei monitro gan y Cydbwyllgor. Bydd Tîm Darparu'r Fargen Ddinesig yn rhoi adroddiad perfformiad chwarterol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn:

- Nodi llwyddiannau'r Fargen Ddinesig.
- Darparu naratif ar berfformiad bob elfen o'r Fargen Ddinesig yn erbyn amserlenni cytunedig yn y cynllun gweithredu.
- Rhoi gwybodaeth am yr allbynnau a'r canlyniadau cytunedig.
- Adnabod camau lliniaru ar gyfer prosiectau a rhaglenni nad ydynt yn cael eu darparu'n unol â'r amserlen gytunedig.

57. Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i gytuno ar amserlen i gynhyrchu'r adroddiadau hyn a bydd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n cynnal cyfarfodydd cynnydd rheolaidd.

58. Sefydlir cydbwyllgor craffu o blith aelodau'r pedwar awdurdod i gyflawni swyddogaeth graffu annibynnol i sicrhau mwy o atebolrwydd cyhoeddus dros y penderfyniadau a wneir gan y Cydbwyllgor ac unrhyw un o'i is-bwyllgorau a'i endidau cysylltiedig.

59. Mae Dinas-Ranbarth Bae Abertawe'n ymrwymo i gydnabod y "Fargen Ddinesig" wrth hyrwyddo a brandio buddsoddiadau sy'n deillio o'r Fargen. Mae hyn yn cynnwys cydnabod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gyfartal ochr yn ochr â phartneriaid ariannu eraill. Efallai y bydd y Ddinas-Ranbarth eisiau ystyried un hunaniaeth brand unigryw i gynrychioli ardal gyfan y Ddinas-Ranbarth a'r holl bartneriaid sy'n rhan o ddarparu'r Fargen Ddinesig.

## Atodiad: Llywodraethu'r Fargen Ddinesig[1]

Yn unol â deddfwriaeth, bydd penderfyniadau ariannol ffurfiol yn cael eu cymryd gan y Cydbwyllgor, yn dilyn argymhelliad gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

**Y Bwrdd Strategaeth Economaidd**
1 cadeirydd o'r sector preifat
5 cadeirydd arall yn cynrychioli rhaglenni'r sector preifat
2 Cynrychiolwyr o Addysg Uwch / Bellach
2 Cynrychiolwyr Gwyddorau Bywyd / Lles
4 arweinydd awdurdod lleol

**Y Cydbwyllgor (o dan a. 102.)**
4 arweinydd awdurdod lleol
Wedi'i gadeirio gan arweinydd awdurdod lleol

Rôl y Cydbwyllgor yw:

- Bydd arian gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn llifo i'r Cydbwyllgor
- Byddai'r holl benderfyniadau ariannol yn cael eu gwneud gan y Cydbwyllgor o Arweinwyr Awdurdod Lleol.
- Y Pwyllgor sy'n bennaf gyfrifol ac atebol am benderfyniadau a wneir gyda'r Fargen.
- Bydd y Cydbwyllgor yn cael ei gadeirio gan un o'r Arweinwyr Awdurdod Lleol.
- Byddai'r Cydbwyllgor yn gwneud penderfyniadau buddsoddi ar sail argymhelliad gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd, y maent i gyd yn aelodau ohono.
- Gall y Cydbwyllgor gyfeirio cynigion newydd i'r Bwrdd Strategaeth Economaidd am gyngor.
- Bydd angen i'r Cydbwyllgor gytuno i wneud penderfyniadau ar gyllid i'r Fargen Ddinesig ar sail dim ond achosion busnes yr ymyriadau a gytunwyd yn flaenorol gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd, y maent i gyd yn aelodau ohono.

Rôl y Bwrdd Strategaeth Economaidd yw:

- Rhoi cyngor strategol ar faterion yn ymwneud â'r Fargen Ddinesig, ac yn benodol ar gynigion i fuddsoddi.
- Byddai'r Bwrdd Strategol yn monitro'r cynnydd gyda darparu'r Fargen.
- Bydd y Bwrdd yn goruchwylio cynhyrchu'r achosion busnes.
- Byddai'r Bwrdd Strategaeth Economaidd ar ffurf "cymdeithas anghorfforedig". Dylai osod ei feini prawf aelodaeth ei hun a'i brosesau i wneud penderfyniadau etc, ond ni all ddal arian na chyflogi pobl.
- Dylai'r Bwrdd Strategaeth Economaidd gytuno, wrth fabwysiadu ei gyfansoddiad, y bydd yn penodi cynrychiolydd o'r sector preifat fel ei gadeirydd. Byddai'r person hwn yn ychwanegol at y cynrychiolwyr eraill o'r sector preifat ar y Bwrdd.
- Byddai ganddo banel recriwtio o dri aelod yn cynnwys un cynrychiolydd o'r ardal leol, un cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ac un o Lywodraeth y DU. Bydd angen i'r panel gytuno'n unfrydol ar benodiad y cadeirydd.
- Bydd angen i'r Ardal Leol gyflwyno cynnig ar gyfer y broses o enwebu a recriwtio aelodau ar y Bwrdd Strategaeth Economaidd. Bydd angen i'r broses gael ei chymeradwyo wedyn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

[1] Yn amodol ar ddod i gytundeb ynghylch y Trefniadau Gweithio ar y Cyd rhwng y pedwar awdurdod lleol, wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.